CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
3 Chwefror 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.00yh

Dechreuwyd gyda hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad gan Cyng Meirion Jones a Cyng John Roberts.
Yn bresennol: Cyng R Edwards, G Roberts, S Hughes, A Evans, N Jones, E Williams, R Davies, A W Mummery (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), G Owen (Clerc). Ymddiheuriad: Cyng D I Roberts

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOF MISOL: Cyng R Edwards, G Roberts, S Hughes, A Evans, N Jones, E Williams, A W Mummery (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D I Roberts, R Davies	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng R Edwards.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 6 Ionawr 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir, Cyng N Jones yn cynnig a Cyng S Hughes yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae (pwyllgor)** - Mae'r pwyllgor yn symud ymlaen gyda grantiau ac ymlaen
4.2	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
4.3	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - mewn llaw - mae Cyng J Evans yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.4	**Gwrychoedd ar y ffordd i Ceint** - mewn llaw
4.5	**Gor-yrru Penmynydd** - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan Gan-Bwyll
4.6	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - mewn llaw (disgwyl am adroddiad gan Cyng R Edwards)
4.7	**Lamp stryd** (Tai Cyngor Penmynydd) - mae'r Clerc yn disgwyl am pris gan y Cyngor Sir
4.8	**Ymgynghoriad ar ffordd newydd o osod Tai Cymdeithasol ar Ynys Mon** - dim sylwadau
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C109F Cais llawn i godi annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir ar dir ger Artwood, Star - dim sylwadau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Penderfyniwyd derbyn pris Mr Rhys Williams am torri gwair - £450
7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfyniwid talu:
7.1	Aelodaeth Unllais Cymru £65.00
7.2	Anglesey Computer Solutions £240.00
	Llofnod **Cadeirydd** **02.03.16**

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dywedodd Cyng M Jones bod Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr o dan sylw gan y Cyngor Sir
8.2	Dywedodd Cyng A Mummery bod y Cyngor Sir wedi gosod arwyddion yn dilyn dwr yn llifo wrth ymyl Eglwys Sant Gredifael a Neuadd Lwyd
8.3	Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir i rhoi y gwydr yn ol yn ei le yn y groeslon ar y ffordd i mewn i Penmynydd (o Langefni)
	Llofnod **Cadeirydd** **02.03.16**